# Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad 6 Medi 2022**
**Daeth yr ymgynghoriad i ben 18 Hydref 2022**

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- Cafwyd 266 ymateb gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol

**Y prif faterion a godwyd**

- Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth
- Mynediad, lle y tu mewn ac aros tro
- Staffio a'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid
- Eitemau o bost nad oes modd eu dosbarthu

**Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth**

Mae parcio yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, mae arolwg pellach o'r sefyllfa wedi cadarnhau fod sawl maes parcio yng nghyffiniau'r adeilad arfaethedig. Mae parcio talu-ac-arddangos dros gyfnod hir ar gael tua 67m i ffwrdd ym maes parcio Stryd y Castell ac mae lle i 208 o gerbydau. Mae 16 o lefydd yn benodol ar gyfer pobl anabl, a does dim rhaid talu am y rhain. Mae croesfan i gerddwyr o'r maes parcio i Siop Ryman.

**Mynediad, lle y tu mewn ac aros tro**

Mae'r fynedfa i'r lleoliad newydd yn wastad. Y tu mewn bydd y gangen newydd yn gyson â rhagofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i redeg gwasanaeth Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r siop. Caiff y siop ei hail ddodrefnu a chaiff y cynllun, celfi gosod a ffitiadau eu haddasu er mwyn creu Swyddfa Bost a lle i aros tro. Bydd y sawl a fydd yn ei rhedeg yn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw rwystradau wrth y fynedfa, ar y llwybrau ac yn y man aros a bod digon o le i gadair olwyn symud o gwmpas heb anhawster.

**Staffio a'r Gwasanaeth i Gwsmeriaid**

Bydd pawb a gyflogir i weithio yn y gangen newydd yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf, a bydd y staff yn cael hyfforddiant parhaus ynghylch cynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion yn ymwneud â gwasanaeth. Bydd tri man gwasanaeth i gyd, sef dau â sgrin, ac un man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Bydd y man gwasanaeth wrth gownter y siop ar agor saith diwrnod yr wythnos, gan gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post dethol a rhoi cyfle i gwsmeriaid ymweld ar adegau a allai fod yn fwy hwylus iddyn nhw neu pan nad yw'r gangen yn rhy brysur. Mae'n golygu hefyd na fydd pobl yn gorfod ymuno â chiw'r brif Swyddfa Bost bob tro, a bydd hyn yn help i leihau'r amser aros wrth y prif gownter. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. Byddwn yn dal i gadw llygad ar y galw a'r defnydd o'r gangen newydd yn dilyn y symud a byddwn yn gweithio gyda hi er mwyn gwneud yn siŵr fod safonau'r gwasanaeth yn cael eu cadw.

**Eitemau o bost nad oes modd eu dosbarthu**

Ni fydd y symud yn cael effaith ar swyddfa ddosbarthu'r Post Brenhinol. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn ystyried y posibilrwydd o ganiatáu i gwsmeriaid gasglu eitemau o bost na fu modd eu dosbarthu o swyddfa ddosbarthu'r Post Brenhinol. Bydd holl wasanaethau eraill Swyddfa'r Post ar gael o'r gangen newydd.

